

Y Pwyllgor Cyllid
**Goblygiadau ariannol y Bil
Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r
Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

Mai 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cyllid
**Goblygiadau ariannol y Bil
Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r
Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

Mai 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Y Pwyllgor Cyllid

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 a 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Simon Thomas AC (Cadeirydd)
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



David Rees AC
Llafur Cymru
Aberafan



Steffan Lewis AC
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



Eluned Morgan AC
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Mark Reckless AC
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru

Cynnwys

Argymhellion	5
01. Cefndir a throsolwg.....	7
02. Crynodeb o gostau a manteision ychwanegol y Bil.....	8
03. Costau pontio.....	12
04. Costau rheolaidd.....	17
05. Goblygiadau ariannol is-deddfwriaeth:.....	21

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn cynnwys y diwygiadau perthnasol i'r ffigurau..... Tudalen 11

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod tryloywder ynghylch y cyllid ychwanegol o £20 miliwn ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a bod unrhyw Asesiad Effaith Reoleiddiol diwygiedig yn egluro a yw'r cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu at ddibenion y Bil..... Tudalen 11

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid clustnodi'r cyllid grant gweithredu Anghenion Dysgu Ychwanegol a ddarperir i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod y defnydd ohono'n ymwneud yn benodol â rhoi rhwymedigaethau'r Bil ar waith..... Tudalen 16

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth dda i'r broses ar gyfer dosbarthu grantiau er mwyn lleihau biwrocratiaeth, gan sicrhau gwerth am arian hefyd. Tudalen 16

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried strategaethau i gadw cydgysylltwyr ADY a lleihau eu trosiant, o ystyried faint o fuddsoddiad sydd ei angen i ennill y cymwysterau rhagnodedig..... Tudalen 16

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid defnyddio'r arian a drosglwyddir o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar gyfer asesu anghenion myfyrwyr ôl-16 a sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol i fodloni ymrwymadau penodol y Bil..... Tudalen 20

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r diweddaraf ynghylch canlyniad y cynlluniau peilot a chasgliadau'r Grŵp Arbenigol ar lechyd mewn perthynas â'r goblygiadau i gyllid o ran rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysgol Penodedig. Tudalen 20

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn ail-adrodd argymhelliad y Pwyllgor Cyllid blaenorol y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ddatblygu dull mwy cyson o ddarparu costau cysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth, a hynny yn achos pob Bil, er mwyn gallu craffu'n well ar y costau a'r manteision llawn..... Tudalen 22

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid amcangyfrif y gost o roi is-ddeddfwriaeth ar waith, pan fo modd, pan gaiff Memorandwm Esboniadol diwygiedig ei gyhoeddi ar ôl Cyfnod 2. Tudalen 22

01. Cefndir a throsolwg

1. Cyflwynwyd y **Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)** (y Bil) gan Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes (y Gweinidog), ar 12 Rhagfyr 2016.
2. Mae'r Bil yn cynnig gosod system ddiwygiedig yn seiliedig ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn lle'r fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) presennol.
3. Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn rhoi manylion am dri amcan cyffredinol y Bil:
 - fframwaith deddfwriaethol unedig ar gyfer cefnogi pob plentyn ag ADY sydd o oedran ysgol gorfodol neu'n iau a phob person ifanc sydd ag ADY sydd mewn ysgol neu addysg bellach (AB);
 - Proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
 - System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.¹
4. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod darpariaethau'r Bil yn seiliedig ar ddeg nod craidd Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r tri amcan:
 - Cyflwyno'r term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY);
 - Ystod oedran 0 i 25;
 - Cynllun unedig;
 - Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy;
 - Dyheadau uchel a deilliannau gwell;
 - System symlach sy'n achosi llai o wrthdaro;
 - Rhagor o gydweithredu;
 - Osgoi anghytundebau a'u datrys yn gynharach;
 - Hawliau clir a chyson i apelio; a
 - Chod gorfodol.²
5. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n cyflwyno amcangyfrif o'r costau a'r manteision a fydd yn codi o'r Bil.
6. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog ynghylch goblygiadau ariannol y Bil ar **8 Chwefror 2017**.

¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.3

² Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.5-3.16

02. Crynodeb o gostau a manteision ychwanegol y Bil

7. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cymharu costau dau opsiwn:
- Opsiwn un – Gwneud dim, ac
 - Opsiwn dau – Cyflwyno deddfwriaeth i wella'r system bresennol ar gyfer anghenion addysgol arbennig (AAA) i leihau'r gwrthdaro sydd o fewn y system ar hyn o bryd, a gwella canlyniadau i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).³ Dyma'r opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio.
8. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan bod gan 107,668 o 477,549 o ddisgyblion AAA yn 2015-16.⁴ Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd y system bresennol yn costio £365.4 miliwn yn 2016-17, gyda gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ac ysgolion yn ysgwyddo mwyafrif y costau (£324.6 miliwn).⁵
9. Mae'r dewis a ffefrir i gyflwyno deddfwriaeth yn ysgwyddo gwariant ar ffurf costau pontio sy'n gyfanswm o £12 miliwn ac yn cynyddu costau parhaus i rai sefydliadau (byrddau iechyd, sefydliadau addysg bellach, Estyn a Llywodraeth Cymru) £1.1 miliwn.
10. Mae'r Bil yn cynnig Cynllun Datblygu Unigol statudol (CDU) i'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol yn lle'r cynlluniau AAA ac anawsterau a/neu anabledau dysgu (AAD) presennol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi arbedion cost ar gyfer gwasanaethau addysg awdurdodau lleol o ran llai o anghytundebau ynghylch penderfyniadau sy'n ymwneud ag asesu a chyhoeddi CDU nag yn achos datganiadau ar hyn o bryd, a llai o benderfyniadau yn destun apêl i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC).⁶ Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan bod potensial i'r Bil greu arbedion net o £14.2 miliwn rhwng 2017-18 a 2020-21 (heb gynnwys costau pontio).⁷
11. Ysgrifennodd y Gweinidog ar ôl hynny at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar **7 Chwefror 2017** i esbonio bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi dod o hyd i wallau, a bod hynny wedi arwain at nifer o newidiadau i'r ffigurau yn y ddogfen honno. Cafodd y diwygiadau hyn effaith ar amcangyfrif yr arbedion cyffredinol sy'n deillio o roi'r Bil ar waith, gan leihau'r arbedion net o £14.2 miliwn a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i £ 12.8 miliwn dros y cyfnod pedair blynedd rhwng 2017-18 a 2020-21.
12. Pan ofynnodd y Pwyllgor a oedd y Bil yn cael ei lywio gan yr arbedion cost a ragwelir, dywedodd y Gweinidog:

“I don't want it to be seen as a way of changing the system just to save money. What I want to see is that this Bill is seen as something that transforms the system and changes the experience of learning.”⁸

³ Memorandwm Esboniadol, Pennod 8

⁴ Memorandwm Esboniadol, Tabl 2, tudalen 118

⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.15

⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.203

⁷ Memorandwm Esboniadol, tudalen 87

⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 6

13. Wrth drafod ffigurau diwygiedig yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gafodd eu cynnwys yn ei lythyr dyddiedig 7 Chwefror 2017, dywedodd y Gweinidog ei fod yn credu bod y ffigurau hyn yn gadarn a bod modd dibynnu arnynt.⁹

14. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor, ar ôl dod o hyd i wallau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ei fod yn bwriadu diwygio'r Asesiad yn ddiweddarach ym mhroses y Bil. Dywedodd, "we're not just publishing the RIA here and then letting it be; we review the RIA as we move forward".¹⁰

15. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, dywedodd y Gweinidog y gallai'r gweithgaredd trawsnewid a fyddai'n ofynnol ochr yn ochr â darpariaethau'r Bil fynd y tu hwnt i'r amserlenni yn yr Asesiad. Dywedodd:

"We published an RIA for the period of this Assembly until 2021. We're seeking to do two things... To create different structures and different processes, and to do that with the legislature changes that we're debating and discussing this morning. We're doing it through a transformation programme, which is about the culture change we spoke about earlier – it's about the training, it's about enabling people and creating capacity within the system – and then we're seeking to deliver that consistently across the face of the country, and to do that bilingually. Now, will we achieve all of that within the four years? I think that's pretty unlikely"¹¹

16. Ar 7 Chwefror 2017, cyhoeddodd y Gweinidog¹² gynlluniau ar gyfer buddsoddiad o £20 miliwn i:

"gefynogi dysgwyr ag ADY yn ystod pum mlynedd nesaf, gan gynnwys helpu'r sector addysg i drosglwyddo i'r system newydd, annog sefydliadau i weithio'n agosach â'i gilydd, datblygu'r gweithlu a chodi ymwybyddiaeth o ADY."¹³

17. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y cyllid ychwanegol o £20 miliwn yn ymwneud â gweithgarwch trawsnewid ehangach yn ogystal ag ymwneud â'r Bil. Aeth rhagddo i ddweud:

"...this Bill is part of the process of transformation, and what I have tried to focus on during the discussions that we've had is that we want to transform the system, and as part of that, I've pledged and have made a clear commitment to the Assembly that we will be funding the changes. Now, the changes do go beyond the Bill. It's part of the process, but not the process in its entirety. So, what we're trying to do in this new package of £20 million is to ensure that we invest in people, and invest mainly in the people, truth be told, but also ensure that we can expand and strengthen, if you like, the kind of systems that we have. So, the funding is new, but I want to make it clear that even though this is new funding, part of the funding is part of the £100 million that Kirsty Williams

⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 12

¹⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 12

¹¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Ionawr 2017, paragraff 341

¹² [Datganiad Ysgrifenedig: Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes](#), 7 Chwefror 2017

¹³ [Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru](#), 8 Chwefror 2017

[Cabinet Secretary for Education] has already announced for education. So, it's part of the education budget.”¹⁴

18. Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor ar **8 Mawrth 2017** yn amlinellu sut y bydd y cyllid o £20 miliwn yn cael ei ddyrannu i hwyluso a chefnogi'r broses o roi'r Bil ar waith. Hefyd, cadarnhaodd y llythyr y bydd £10.1 miliwn o'r rhaglen £20 miliwn yn dod o'r buddsoddiad ychwanegol o £100 miliwn a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i wella safonau ysgolion.¹⁵ Mae'r £9.9 miliwn sy'n weddill yn seiliedig ar dybiaethau cynllunio y bydd y llinell gyllideb ADY yn aros ar ei lefel bresennol tan 2020-21.¹⁶

19. Holodd y Pwyllgor pam mae'r cyllid ychwanegol yn angenrheidiol, o ystyried bod yr Asesiad yn nodi arbedion. Atebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

“As we change the system, as the RIA states, we do foresee some savings to different bodies. However—however—because this element of the wider transformational process shouldn't be taken in isolation and shouldn't be taken in isolation from the overall transformational programme, which will not be cost-neutral or which won't be about savings—it's about changing the system—then we're not looking at savings in the way of releasing additional resources and cash to a local authority to do other things with, for example. What we're doing is seeking to streamline the system to invest those savings back in the system to deliver transformational change. So, if you isolate the different elements of this programme, then you don't get the full picture. But we deliver the Bill, we deliver the legislative change, we deliver a new statutory system—that will create some savings, as outlined in the impact assessment; those savings are then reinvested in a wider transformational programme, which has now seen additional investment from Government.”¹⁷

Safbwynt y Pwyllgor

20. Mae'r Pwyllgor yn nodi yr arweiniodd y gwallau yn yr Asesiad at ostyngiad yn yr arbedion a ragwelir drwy roi darpariaethau'r Bil ar waith ac yn cydnabod y sicrwydd gan y Gweinidog bod y wybodaeth ariannol ddiwygiedig yn gadarn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn siomedig na ddaethpwyd o hyd i'r gwallau hyn cyn cyflwyno'r Bil ac y cafodd y Pwyllgor wybod amdanynt dim ond diwrnod cyn iddo gymryd tystiolaeth gan y Gweinidog, a effeithiodd ar ei allu i graffu'n drylwyr ar oblygiadau ariannol y Bil.

21. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod lle i wneud arbedion o ran amser staff ar gyfer rhoi datganiadau i ddysgwyr ac ymdrin ag apeliadau, ac mae o blaid ail-fuddsoddi'r arbedion hynny yn y system ADY.

22. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod uchelgais Llywodraeth Cymru i ailwampio'r system ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn ymestyn y tu hwnt i'r Bil ei hun, ond mae'n credu bod amcangyfrif y gost o weithredu'r Bil yn rhy isel pan gafodd ei gyflwyno. Felly, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol o £20 miliwn, a ddylai helpu i gyflawni amcanion y Bil. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y caiff y cyllid hwn ei ddyrannu i gefnogi trawsnewidiad ADY fel

¹⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 17

¹⁵ [Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru](#), 20 Hydref 2016

¹⁶ [Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes](#), 8 Mawrth 2017

¹⁷ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 93

yr amlinellir yn llythyr y Gweinidog dyddiedig 8 Mawrth 2017. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y cyddestun ehangach o newid trawsnewidiol yn golygu ei bod yn anoddach categoreiddio costau. Fodd bynnag, mae'r diffyg eglurder ynghylch y cyllid angenrheidiol ar gyfer cefnogaeth uniongyrchol i roi'r Bil ar waith a hwyluso hyn yn ei gwneud yn anodd i'r Pwyllgor wneud y gwaith craffu ariannol trylwyr y mae'n ymdrechu i'w gyflawni.

23. Mae'r Pwyllgor yn nodi o'r llythyr dyddiedig 8 Mawrth 2017 bod £9.9 miliwn o'r buddsoddiad ychwanegol o £20 miliwn yn ddibynnol ar ddyraniadau cyllideb yn y dyfodol ac y gallai bwriadau gwariant y Gweinidog newid wrth i waith y Grŵp Gweithredu Strategol ADY ddatblygu. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu monitro ac adolygu'r broses o roi darpariaethau'r ddeddfwriaeth ar waith gan ei bod yn amlwg bod ei heffaith ariannol yn cael ei mesur o hyd a bod y Gweinidog yn rhagweld costau pontio bellach y tu hwnt i'r rhai a nodir yn yr Asesiad. I'r perwyl hwn, bydd y Pwyllgor yn ystyried y Memorandwm Esboniadol diwygiedig a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ôl trafodion Cyfnod 2.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn cynnwys y diwygiadau perthnasol i'r ffigurau.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod tryloywder ynghylch y cyllid ychwanegol o £20 miliwn ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a bod unrhyw Asesiad Effaith Reoleiddiol diwygiedig yn egluro a yw'r cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu at ddibenion y Bil.

03. Costau pontio

24. Mae'r Asesiad yn nodi costau pontio o £12 miliwn, sy'n cynnwys £9.4 miliwn ar gyfer Llywodraeth Cymru a £2.6 miliwn ar gyfer sefydliadau eraill. Mae'r costau pontio a ragwelir ar gyfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys costau o £2.4 miliwn i Lywodraeth Cymru a darparu grantiau pontio o £7 miliwn i sefydliadau eraill.¹⁸

Costau i sefydliadau eraill

25. Pan ymddangosodd y Gweinidog gerbron y Pwyllgor, cadarnhaodd fod y gost £2.6 miliwn i sefydliadau eraill wedi cael ei disodli gan ei gyhoeddiad ar 7 Chwefror y bydd cyllid ychwanegol o £20 miliwn. Dywedodd:

“I would anticipate and expect that yesterday’s announcement will cover much of that £2.6 million, and if there are residual amounts required, then clearly, we will look at that and look at trying to deliver sufficient resources on the basis of that.”¹⁹

Costau i Lywodraeth Cymru

26. Mae'r Asesiad yn nodi'r costau pontio canlynol i Lywodraeth Cymru:

- £1.1 miliwn ar gyfer ail flwyddyn y Gronfa Arloesi ADY yn 2017-18;²⁰
- £135,000 i gefnogi gwaith parhaus y Grŵp Gweithredu Strategol ADY rhwng 2017-18 a 2020-21;²¹
- £200,000 rhwng 2017-18 a 2020-21 ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofynion deddfwriaethol newydd;²²
- £300,300 dros y cyfnod tair blynedd rhwng 2018-19 a 2020-21 i ariannu ymgynghorydd strategol i weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi eraill wrth iddynt drosglwyddo i'r system ADY newydd;²³ a
- £400,000 rhwng 2017-18 a 2020-21 i ddatblygu adnoddau a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i helpu i roi'r Bil ar waith.²⁴

27. Bydd tîm yn cael ei gyflogi i helpu i roi'r ddeddfwriaeth ar waith, sef cyfanswm o £558,200 mewn costau staff rhwng 2017-18 a 2020-21,²⁵ a bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gwario £18,000 yn diweddar deunyddiau cyfarwyddyd a £76,220 yn llunio'r cod ymarfer newydd.²⁶

Grantiau gweithredu ynghylch ADY

28. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu nifer o grantiau gweithredu ADY i hwyluso'r broses o roi'r Bil ar waith, gan gynnwys:

¹⁸ Memorandwm Esboniadol, tudalen 86

¹⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 78

²⁰ Memorandwm Esboniadol, Tabl 5, tudalen 124.

²¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.32

²² Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.34

²³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.35

²⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.36

²⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.37

²⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 8.38-8.39

- £5.2 miliwn rhwng 2017-18 a 2020-21 drwy grant gweithredu ADY ar gyfer awdurdodau lleol;
- £280,000 o gyllid grant ADY ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach rhwng 2017-18 a 2019-20;
- £101,000 ar gael i TAAAC yn 2018-19;
- £14,000 ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol yn 2018-19; a
- £225,000 i Estyn rhwng 2018-19 a 2019-20.²⁷

29. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog a ystyriwyd darpariaeth wrth gefn ar gyfer y grantiau pontio, dywedodd y Gweinidog ei fod yn gobeithio y byddai'r £20 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd ar 7 Chwefror yn arwain at fuddsoddiad mewn newid go iawn yn gynt. Aeth rhagddo i ddweud:

“...I’m confident that we have the numbers available to us and that we have the funding and resources available to us, but, clearly, if in future years it becomes apparent that we need additional funding, then I’ve got no issue at all with seeking that additional funding.”²⁸

30. O ran sut y bydd y cyllid grant ADY yn cael ei ddsbarthu, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor na fyddai'n dymuno gweld awdurdodau lleol yn mynd drwy broses ymgeisio.²⁹ Esboniodd y swyddog o Lywodraeth Cymru a oedd gyda'r Gweinidog:

“Our current thinking there is to keep the bureaucracy at an absolute minimum in relation to that, to develop a formula-based allocation. Our thinking is probably not to use data on current SEN levels, because one of the reasons that we’re seeking to legislate is that we know that that differs in terms of different approaches and different policy applications in different local authorities. So, potentially, on a population-type basis, but we’ll work with finance colleagues within local authorities to find a fair distribution method and keep it to a minimum in terms of bureaucracy—no large-scale application process and funding where we see it being needed.”³⁰

31. Dywedodd y Gweinidog hefyd nad oedd yn rhagweld y byddai angen i sefydliadau eraill fel sefydliadau addysg bellach, Estyn neu fyrddau iechyd lleol wneud cais am grant.³¹

32. Cadarnhaodd y Gweinidog yn ei lythyr dyddiedig 11 Ebrill 2017 at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:

“Bydd yr £20 miliwn o gyllid gweithredu yn cael ei weinyddu drwy arian grant, sy'n arfer safonol. Fodd bynnag, rhaid iddi fod yn broses briodol a chymesur. Rwy'n rhagweld dyraniad grant yn hytrach na phroses cais am grant, ond un sy'n seiliedig ar feini prawf clir ynghylch yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan bartneriaid.”³²

²⁷ Memorandwm Esboniadol, Tabl 72, tudalen 293.

²⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 70

²⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 72

³⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 47

³¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 74-76

³² Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, 11 Ebrill 2017

Datblygu cynlluniau dysgu ar gyfer dysgwyr ôl-16

33. O dan y drefn bresennol, Gyrfa Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu cynlluniau dysgu a sgiliau ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anabledau dysgu sy'n dechrau addysg bellach. Mae'r Bil yn cynnig bod cynlluniau dysgu unigol yn cymryd lle cynlluniau dysgu a sgiliau a bod y cyfrifoldeb yn trosglwyddo i awdurdodau lleol. Bydd rôl Gyrfa Cymru yn newid o ddatblygu cynlluniau dysgu a sgiliau i gefnogi awdurdodau lleol i gynnal cynlluniau datblygu unigol ar gyfer dysgwyr sefydliadau addysg bellach.³³ Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido Gyrfa Cymru yn ystod y cyfnod dwy flynedd rhwng 2018-19 a 2019-20, gyda chost o £709,400.³⁴

34. Cadarnhaodd y Gweinidog, er y bydd cyllid yn cael ei drosglwyddo o Gyrfa Cymru i'r awdurdodau lleol ar gyfer lleoliadau addysg bellach, nid oes penderfyniad wedi'i wneud i neilltuo'r cyllid hwn. Dywedodd:

“I have no view on that at the moment, and I want to have that conversation with people, but I do have worries, quite honestly, because if you ring-fence a particular amount of money, that ring fence could end up being a cap and we don't want that. So, I think we need to have a conversation with local government about the sorts of financial structures that enable all local authorities to receive the sorts of resources they need.”³⁵

Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

35. Y dull presennol o gydgysylltu cymorth i blant a phobl ifanc ag AAA yw drwy Gydgysylltydd Anghenion Addysgol Arbennig. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif bod pob lleoliad addysg yn cyflogi un person mewn swydd cydgysylltydd AAA, ar gost flynyddol o £65.3 miliwn i ysgolion, £1.2 miliwn i unedau cyfeirio disgyblion a £513,100 i sefydliadau addysg bellach.³⁶

36. Mae'r Bil yn cyflwyno rôl statudol cydgysylltydd ADY ym mhob lleoliad addysg (ac eithrio ysgolion anghenion arbennig) ac yn ei gwneud yn ofynnol i bob cydgysylltydd ddilyn rhaglen hyfforddiant i lefel Meistr.³⁷ Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan nad oes disgwyl i sefydlu'r rôl cydgysylltydd ADY arwain at unrhyw gostau parhaus ychwanegol oherwydd bod gan leoliadau addysg gydgysylltwyr AAA eisoes.³⁸ Fodd bynnag, rôl y cydgysylltydd ADY fydd yn gyfrifol am gost bontio fwyaf y Bil, sef amcangyfrif o £9.3 miliwn, a hynny er mwyn hyfforddi unigolion sy'n ymgymryd â swyddi tebyg ar hyn o bryd i'r safon ofynnol.³⁹

37. Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch rôl y cydgysylltydd ADY, dywedodd y Gweinidog:

“The key issue facing us in the new role of the ALNCO is to ensure that they have continuing professional development and that they have the training available to them. That is what we're investing in and that's part of the expenditure of £20 million that we announced yesterday. So, we do have an expectation that SENCOs are within the current system, but we also recognise that we need—not so much to fund new posts—but we do need to ensure that

³³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.173

³⁴ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.40

³⁵ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 50

³⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 8.502-8.504

³⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 5.13-5.14

³⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.516

³⁹ Memorandwm Esboniadol, Tabl 68, tudalen 259

they do have the expertise that they require. And, of course, the Bill doesn't demand full-time ALNCOs; it doesn't make that demand on schools."⁴⁰

38. Cadarnhaodd y Gweinidog wedi hynny, yn ei lythyr dyddiedig 8 Mawrth 2017, y bydd £12 miliwn o'r pecyn cymorth o £20 miliwn yn cael ei fuddsoddi i ddatblygu'r gweithlu rhwng 2017-18 a 2020-21.⁴¹

39. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog a fydd unrhyw fecanwaith i sicrhau bod cydgysylltwyr ADY yn aros yn system addysg Cymru, o ystyried faint o fuddsoddiad sydd ei angen, dywedodd:

"We don't have any golden handcuffs, as it were. But we had a debate briefly, I think, in the Chamber yesterday or last week about the devolution of teacher's pay and conditions to this place, which is taking place, and it might well be that, as a part of that process, we may be able to explore some of those different options. I have no strong views on that, but I would certainly want and anticipate that teachers who are qualified under this system will want to stay in Wales and practice and deliver on that... I would hope and anticipate that, by having a system in Wales that enables teachers to teach and enables teachers to focus in on a classroom in a way that doesn't always happen across the border—that it would be a better environment in which to work, and that teachers would choose to stay and to work in Wales."⁴²

Safbwynt y Pwyllgor

40. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol o £20 miliwn ac yn cydnabod, o ganlyniad i'r arian ychwanegol hwn, bod y Gweinidog yn disgwyl y bydd rhoi'r Bil ar waith yn niwtral o ran cost i lywodraeth leol a sefydliadau eraill yng nghyfnod y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bod £9.9 miliwn o'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn ddibynnol ar ddyraniadau cyllideb yn y dyfodol.

41. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r Gweinidog am y wybodaeth ynghylch y dyraniad o'r £20 miliwn ychwanegol a gafwyd yn ei lythyr dyddiedig 8 Mawrth 2017. Fodd bynnag, mae'n destun siom nad oedd hyn yn gwahaniaethu rhwng sut y byddai'r arian yn cael ei ddefnyddio i dalu costau rhoi darpariaethau'r Bil ar waith a'r newidiadau trawsnewidiol ehangach. Wrth nodi sylwadau'r Gweinidog am ba mor anodd yw gwahanu'r costau hyn, mae'r diffyg manylion yn ei gwneud yn anodd craffu ar y costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith a chywirdeb y ffigurau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddsbarthu grantiau gweithredu heb y baich o broses ymgeisio, ac yn nodi bod trafodaethau ar y gweill ynghylch y fformiwla ar gyfer dyrannu cyllid grant. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod perygl y bydd y Bil yn codi disgwyliadau, a heb arweiniad ariannol clir, mae'n cwestiynu a fydd awdurdodau lleol yn gallu cyflawni darpariaethau'r Bil.

42. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y rhan fwyaf o'r costau pontio yn gysylltiedig â'r cymhwyster lefel Meistr ar gyfer cydgysylltwyr ADY ac mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru roi mecanweithiau ar waith i gadw cydgysylltwyr ADY cymwysedig yng Nghymru i sicrhau bod manteision y fath fuddsoddiad sylweddol yn cael eu gwireddu'n llawn.

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 138

⁴¹ [Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes](#), 8 Mawrth 2017

⁴² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 143

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid clustnodi'r cyllid grant gweithredu Anghenion Dysgu Ychwanegol a ddarperir i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod y defnydd ohono'n ymwneud yn benodol â rhoi rhwymedigaethau'r Bil ar waith.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid rhoi ystyriaeth dda i'r broses ar gyfer dosbarthu grantiau er mwyn lleihau biwrocratiaeth, gan sicrhau gwerth am arian hefyd.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried strategaethau i gadw cydgysylltwyr ADY a lleihau eu trosiant, o ystyried faint o fuddsoddiad sydd ei angen i ennill y cymwysterau rhagnodedig.

04. Costau rheolaidd

43. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod cyfanswm y costau rheolaidd (ac eithrio costau pontio) ar gyfer y cyfnod 2017-18 i 2020-21 yn cyfateb i £532.9 miliwn, sef £133.2 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd.⁴³ Ar y llaw arall, y costau rheolaidd sy'n gysylltiedig â chynnal y broses bresennol o dan opsiwn un yw £ 545.6 miliwn, sef £136.4 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd.⁴⁴

44. Mae'r Asesiad yn nodi cynnydd mewn costau refeniw ar gyfer y pedwar sefydliad canlynol:

- Byrddau Iechyd Lleol: £206,400 y flwyddyn i ariannu tair rôl Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig i annog gwell cydweithio rhwng iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag ADY.⁴⁵
- Sefydliadau addysg bellach: £23,200 y flwyddyn i ymateb i apelïadau gan bobl ifanc o ganlyniad i ehangu'r hawl i apelio i TAAAC, gan gynnwys y dysgwyr hynny hyd at 25 oed sydd ag ADY ac sy'n mynychu addysg bellach.⁴⁶
- Estyn: £43,000 y flwyddyn o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer yr ysgolion annibynnol y bydd Estyn yn gyfrifol am eu monitro.⁴⁷
- Llywodraeth Cymru: £170 y flwyddyn trwy weithgareddau amrywiol, gan gynnwys trosglwyddo ariannu a chostau cofrestru.⁴⁸

Cynlluniau i gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

45. Mae'r Bil yn disodli'r cynlluniau cefnogi presennol gydag un Cynllun Datblygu Unigol statudol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA ac AAD, 0-25 oed. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y bydd creu'r Cynllun Datblygu Unigol yn arwain at gynnydd o 94,350 yn nifer y dysgwyr sydd â chynllun statudol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r canlynol fel risg allweddol:

“gallai cyfran o'r 94,350 o blant a phobl ifanc ychwanegol a/neu eu rhieni ddisgwyl mwy gan gynllun statudol nag yr oeddent yn ei ddisgwyl gan eu cynllun anstatudol blaenorol, a herio penderfyniadau ynghylch y ddarpariaeth.”⁴⁹

46. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Pwyllgor y gallai'r cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sydd â hawl i gynllun statudol arwain at fwy o ddisgwyliadau a chostau ychwanegol, dywedodd y Gweinidog ei fod yn gobeithio y byddai symud oddi wrth system datganiadau a oedd â'i gwreiddiau mewn gwrthdaro i broses CDU sy'n agored i bawb yn codi disgwyliadau.⁵⁰ Ychwanegodd:

“By moving away from that, I hope that we are releasing resources in the way that we've already described. But we're also enabling support to be delivered in a more coherent way. So, we don't expect, and we don't anticipate, that we will be increasing costs, but we do anticipate that we will be moving to a very

⁴³ Memorandwm Esboniadol, Tabl 70, tudalen 290.

⁴⁴ [Llythyr gan Weiniidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes](#), 7 Chwefror 2017

⁴⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.552

⁴⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.575

⁴⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.576

⁴⁸ Memorandwm Esboniadol, tudalen 86

⁴⁹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.30

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 123

different system, and I think a system that will be welcomed on all sides of the Chamber.”⁵¹

47. Pan ofynnwyd iddo a oedd yn hyderus fod yr amcangyfrif o 94,350 o ddysgwyr ychwanegol yn gywir, dywedodd y Gweinidog:

“...we are confident that we know how many children have special needs and additional needs. We think that we know how many of those there are, and I don't know of any figures that suggest that we've had this wrong or any other figures that suggest that figures should be higher or lower. So, I'm very confident that we know how many children and young people are in the system at present, and what we're doing is expanding provision for everyone.”⁵²

48. O ran capasiti'r system i ddarparu ar gyfer y dysgwyr ychwanegol a fyddai â'r hawl i gael CDU statudol, dywedodd y Gweinidog yn ei lythyr dyddiedig 11 Ebrill:

“mae capasiti o fewn y system yn rhywbeth i'w ystyried yn fanwl. Mae gwaith gyda phartneriaid ar y gweill i sicrhau bod y gweithlu'n cael ei baratoi ar gyfer y diwygiadau. Yn ystod y flwyddyn ariannol newydd hon, byddwn yn gwneud gwaith paratoi ac asesiadau i fesur lefel y parodrwydd, a fydd yn bwydo i mewn i gynlluniau gweithredu. Bydd Estyn hefyd yn cynnal adolygiad thematig i asesu parodrwydd partneriaid.”⁵³

49. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, heriodd SNAP Cymru⁵⁴ y costau datrys anghytundeb a geir yn yr Asesiad. Wedi hynny, **ysgrifennodd** y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog i ofyn am ragor o wybodaeth am y mater hwn, ac **ymatebodd** y Gweinidog ar 21 Mawrth 2017 yn cadarnhau bod ffigurau'r Asesiad ynghylch datrys anghytundeb yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan SNAP Cymru. Yn ei lythyr, dywedodd y Gweinidog fod ei swyddogion wedi trefnu cyfarfod gyda'r rhanddeiliad dan sylw i drafod y data perthnasol a chytuno ar ffordd ymlaen, ac y bydd yr Asesiad yn cael ei ddiwygio os bydd angen.⁵⁵

Cyfrifoldeb dros asesu anghenion ôl-16 a sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol

50. Mae'r Bil yn cynnig trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynllunio a sicrhau lleoliadau coleg arbenigol annibynnol i bobl ifanc ag AAD o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Byddai hyn yn golygu y bydd y gyllideb bresennol o £12.4 miliwn y flwyddyn a ddefnyddir gan Weinidogion Cymru i gynllunio a sicrhau darpariaeth ôl-16 arbenigol yn cael ei throsglwyddo i lywodraeth leol.⁵⁶ Mae'r Asesiad yn nodi na fydd awdurdodau lleol, o ganlyniad, yn gorfod ysgwyddo unrhyw gostau rheolaidd ychwanegol sy'n gysylltiedig ag opsiwn dau.⁵⁷ Nid yw'r Asesiad yn nodi a fydd yr arian hwn yn cael ei glustnodi neu ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw. Fodd bynnag, mae llythyr y Gweinidog dyddiedig 11 Ebrill yn nodi:

⁵¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 124

⁵² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 173

⁵³ **Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**, 11 Ebrill 2017

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: **ALN78: SNAP Cymru**

⁵⁵ **Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu gydol Oes**, 21 Mawrth 2017

⁵⁶ Memorandwm Esboniadol, Tabl 69, tudalen 279.

⁵⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.392

“Bydd y cyllid ar gyfer lleoliadau ôl-16 arbenigol yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, sy'n briodol gan fod hyn yn trosglwyddo arian, nid grant am gyfnod penodol o amser. Mae manylion y trosglwyddiad hwn yn cael eu trafod gan yr Is-grŵp Dosbarthu.”⁵⁸

51. Wrth ateb pryderon y gallai awdurdodau lleol beidio â dyrannu'r cyllid a drosglwyddwyd yn ôl y disgwyl oni bai ei fod wedi'i glustnodi, cadarnhaodd y Gweinidog fod yr is-grŵp dosbarthu yn ystyried opsiynau ar hyn o bryd ac atgoffodd y Pwyllgor y gallai awdurdodau lleol yn y pen draw gael eu cosbi drwy dribiwnlys. Ychwanegodd:

“What I don't want is a cap or a fixed budget; we want to have a demand-led, if you like, budget, whereby everybody who requires a placement, a specialist placement, in further education, will be able to have that delivered for them, irrespective of the funding issues. Clearly, if that is not delivered by individual local authorities, then people will have the right to go to a tribunal, but I don't see us arriving in that very confrontational place. We know that local authorities are already working with further education institutions in order to deliver specialist provisions and to increase the local options available to people. So, we know that that change, if you like, is already beginning to take place.”⁵⁹

Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA)

52. Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol benodi un prif unigolyn neu un pwynt cyswllt i fod â chyfrifoldeb strategol dros ddarpariaeth iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAA. Mae hyn yn golygu bod gan fyrddau iechyd lleol ddulliau amrywiol mewn perthynas â'r rôl hon ar hyn o bryd ac nad oes set gyffredin o gyfrifoldebau ar gyfer y swydd.⁶⁰

53. Mae'r Bil yn cyflwyno SACDA mewn byrddau iechyd lleol, sy'n gyfrifol am sefydlu systemau effeithlon i sicrhau bod gan y gwasanaethau iechyd sy'n ymwneud ag asesu ADY y sgiliau i gynnal asesiadau priodol ac amserol, yn gwneud argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch ymyriadau effeithiol, yn monitro canlyniadau, yn sicrhau ansawdd cyngor ac yn meincnodi ar draws byrddau iechyd i leihau unrhyw amrywiaeth o ran arfer neu ddisgwyliadau.⁶¹

54. Bydd y SACDA yn weithiwr iechyd cofrestredig gyda chymwysterau clinigol ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff un diwrnod yr wythnos ei neilltuo i'r rôl am bob 200,000 o'r boblogaeth neu am bob 40,000 o blant a phobl ifanc. Byddai hyn yn cyfateb i dair swydd amser llawn ar draws y saith bwrdd iechyd lleol.⁶² Bydd sefydlu'r SACDA yn arwain at gostau rheolaidd o £206,400 y flwyddyn i gyflogi tri swyddog, sy'n gyfanswm o £825,600 dros y pedair blynedd.⁶³

55. O ran y mecanwaith cyllido ar gyfer rôl orfodol y SACDA, dywedodd y Gweinidog:

“There is an expert group on health at the moment, looking at these matters. I haven't seen a report from them. We know that health boards are piloting at the

⁵⁸ Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, 11 Ebrill 2017

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 132

⁶⁰ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 7.104-7.105

⁶¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.109

⁶² Memorandwm Esboniadol, paragraffau 7.110-7.111

⁶³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.577

moment, and if there is a need for additional resources, then that's something I can write to the committee to explain when we have further information from the expert group and from the pilots.”⁶⁴

Safbwynt y Pwyllgor

56. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod dyheadau Llywodraeth Cymru am system deg ar sail anghenion i gefnogi dysgwyr ag ADY ac mae'n nodi na heriwyd amcangyfrif y cynnydd o 94,350 yn nifer y bobl ifanc ychwanegol â chynllun statudol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r gost o ehangu'r system i'r rhai sydd angen mwy o gymorth nag sydd ar gael ar hyn o bryd gynyddu os bydd gwir nifer y dysgwyr yn uwch na'r hyn a ragwelir.

57. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r ddeddfwriaeth yn cynnig digon o amser i'r rôl SACDA newydd ac yn nodi bod y rôl yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Grŵp Arbenigol ar Iechyd ac yn cael ei threialu gan y byrddau iechyd lleol.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid defnyddio'r arian a drosglwyddir o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar gyfer asesu anghenion myfyrwyr ôl-16 a sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol i fodloni ymrwymadau penodol y Bil.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r diweddaraf ynghylch canlyniad y cynlluniau peilot a chasgliadau'r Grŵp Arbenigol ar Iechyd mewn perthynas â'r goblygiadau i gyllid o ran rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysgol Penodedig.

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 149

05. Goblygiadau ariannol is-deddfwriaeth:

58. Mae adran 4 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod ADY ac mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar ddrafft o'r Cod cyn ei osod gerbron y Cynulliad, o dan weithdrefn negyddol ddrafft.⁶⁵
59. Mae'r Cod yn nodi'r llawer o'r manylion ynghylch y ffordd y cynhelir asesiadau eu cynnal a phenderfyniadau ynghylch y darpariaethau sydd eu hangen i ddiwallu ADY dysgwr. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Bil yn sicrhau bod y Cod yn cynnwys gofynion manwl ynghylch sut y dylai Cynlluniau Datblygu Unigol gael eu paratoi, eu cynnal a'u hadolygu.⁶⁶
60. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **fersiwn ddrafft gynnar** o'r Cod ADY newydd ym mis Medi 2015, yn ystod ei ymgynghoriad ar y Bil drafft. Wedi hynny, rhannodd y Gweinidog **fersiwn ddrafft o'r Cod** gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 14 Chwefror 2017.
61. Yn ystod y dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 12 Ionawr 2017, dywedodd y Gweinidog, er nad yw'r cod wedi cael ei gyhoeddi eto, ei fod wedi dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu costau, gan ychwanegu:

“The code reflects the Bill, and so we’re not going to revisit the impact assessment on the basis of publication of the code.”⁶⁷

62. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog sut y bydd costau ychwanegol unrhyw newidiadau i'r Cod a'i weithrediad yn cael eu hasesu, dywedodd:

“The [draft] code that’s published next week is a document that is published for information. The final code will depend on the shape of the final Act, and the code itself, which will become statutory guidance, will of course be subject to its own parliamentary processes and its own scrutiny at that time. So, we will be able, at that time, to have that conversation, that debate. But the code that we’re publishing next week is an aid to scrutiny. It isn’t the code that we would expect to become law consequent to this Bill becoming law and receiving Royal Assent.”⁶⁸

Safbwynt y Pwyllgor

63. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod y Cod drafft wedi cael ei gyhoeddi i helpu gyda gwaith craffu ac y gallai newid. Fodd bynnag, oherwydd y bydd y rhan fwyaf o ofynion manwl y Cynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu hamlinellu yn y Cod yn hytrach nag ar wyneb y Bil, mae'n anodd i'r Pwyllgor ddeall costau a manteision llawn y Bil. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y costau amcangyfrifedig ar gyfer cyflwyno'r darpariaethau a wneir drwy is-ddeddfwriaeth yn bwysig er mwyn galluogi gwaith craffu ariannol digon trylwyr o Filiau, ac y dylid darparu'r wybodaeth hon ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth.
64. Yn ei **adroddiad ynghylch goblygiadau ariannol Bil lechyd y Cyhoedd (Cymru)**, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei bod yn bwysig amcangyfrif y gost o weithredu darpariaethau a wneir o dan is-

⁶⁵ Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

⁶⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.134

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 12 Ionawr 2017, paragraff 338

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 8 Chwefror 2017, paragraff 164

ddeddfwriaeth er mwyn galluogi'r Cynulliad i ddeall costau a buddion Biliau'n llawn. Mae'r Pwyllgor yn ail-ailadrodd y casgliad hwnnw yma.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn ail-adrodd argymhelliad y Pwyllgor Cyllid blaenorol y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ddatblygu dull mwy cyson o ddarparu costau cysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth, a hynny yn achos pob Bil, er mwyn gallu craffu'n well ar y costau a'r manteision llawn.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid amcangyfrif y gost o roi is-ddeddfwriaeth ar waith, pan fo modd, pan gaiff Memorandwm Esboniadol diwygiedig ei gyhoeddi ar ôl Cyfnod 2.